# SL(5)704 – Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020

## Cefndir a diben

Mae'r Cod hwn yn rhoi canllawiau ynghylch yr hyn sy'n dod o fewn paragraffau 1 a 2 o Atodlen 8 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Deddf 2000) a'r hyn nad yw'n dod o'u mewn. Mae'r paragraffau hynny'n berthnasol i'r diffiniad o 'gwariant ymgyrch' ac yn enwedig felly i ba dreuliau y mae'n ofynnol i blaid wleidyddol roi gwybod amdanynt

Mae gan y Comisiwn Etholiadol bŵer o dan baragraff 3 o Atodlen 8 I Ddeddf 2000 i baratoi Cod Ymarfer yn rhoi canllawiau ynghylch y mathau o dreuliau sy'n dod o fewn paragraffau 1 a 2 o Atodlen 8 ac nad ydynt yn dod o'u mewn.

Cafodd y Cod Ymarfer hwn ei baratoi gan y Comisiwn Etholiadol a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo. Caiff y Cod ei ddyroddi gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol o dan baragraff 3 o Atodlen 8 i Ddeddf 2000.

## Gweithdrefn

Negyddol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod fersiwn ddrafft o'r Cod gerbron y Senedd. Os, o fewn 40 diwrnod i'r dyddiad y cafodd y fersiwn drafft hon ei gosod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi ei: (i) diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod), bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r Cod drafft, ni ddylai Gweinidogion Cymru ddyroddi'r Cod.

Os na chaiff penderfyniad o'r fath ei wneud, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (yn y ffurf ddrafft) a bydd y Cod yn dod i rym ar ddiwrnod a nodir mewn Gorchymyn gan Weinidogion Cymru.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

**Nodwyd tri phwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r Cod hwn.**

1. Bydd y Cod yn dod i rym ar ôl i'r cyfnod rheoleiddiedig ddechrau. Nodir bod y Nodyn Esboniadol yn cynnwys y datganiad a ganlyn:

> *"Mae'r cyfnod rheoleiddiedig ar gyfer pleidiau gwleidyddol yn dechrau ar 6 Ionawr 2021.*

> *"Er na fydd Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2020 mewn grym erbyn 6 Ionawr bydd y Comisiwn Etholiadol yn cyhoeddi canllawiau cyn i'r Cod Ymarfer fod mewn grym i sicrhau bod gwybodaeth ar gael."*

2. Mae paragraffau 1.24 ac 1.25 o'r Cod yn crynhoi darpariaethau Deddf 2000 ynghylch gwariant tybiannol, fel yr amlinellir yn adran 73 o Ddeddf 2000. Nod y pwynt bwled cyntaf ym mharagraff 1.24 yw crynhoi un o'r amodau sy'n penderfynu a ddylid trin gwariant tybiannol ar ymgyrch fel gwariant ymgyrch a achoswyd gan y blaid. Yn benodol, mae paragraff 1.24 yn nodi'r amod a ganlyn: "*pan fydd eiddo, gwasanaethau neu gyfleusterau yn cael eu trosglwyddo neu eu darparu am ddim neu am ddisgownt o fwy na 10 y cant i'w defnyddio gan y blaid neu er budd y blaid*". Yn yr un modd, mae paragraff 1.25 yn cyfeirio at "*ei gwerth ar y farchnad (pan gaiff ei throsglwyddo'n ddi-dâl), neu werth y disgownt*".

Fodd bynnag, mae adran 73 o Ddeddf 200 yn gwahaniaethu rhwng y ffordd yr ymdrinnir â throsglwyddo eiddo a darparu eiddo, gwasanaethau a chyfleusterau. Felly, gellir ystyried bod y crynodebau hyn yn gorsymleiddio materion.

Er na fyddai'r Cod yn trechu rhwymedigaethau Deddf 2000, mae'n bosibl y gall arwain at gamddeall y sefyllfa os yw'r person yn darllen y Cod yn unig.

3. Nodir bod y Cod drafft a ddarparwyd fel rhan o'r ymgynghoriad yn wahanol i'r Cod a osodwyd gerbron y Senedd. Er bod rhai o'r newidiadau yn gymharol fach - er enghraifft, adlewyrchu'r newid enw o Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru - mae newidiadau eraill yn ymdrin â phwyntiau sylweddol.

Nid yw tarddiad y newidiadau yn glir. Yn benodol, nid yw'n glir a gafodd y newidiadau eu gwneud gan y Comisiwn Etholiadol yn sgil yr ymgynghoriad neu gan Weinidogion Cymru. Os yw'r drafft sydd bellach wedi'i osod gerbron y Senedd yn cynnwys newidiadau a benderfynwyd gan Weinidogion Cymru, nodir bod yn rhaid cyflwyno datganiad o'r rhesymau am y newidiadau i gyd-fynd â'r Cod yn unol â pharagraff 3(5) o Atodlen 8 i Ddeddf 2000. Gan nad oes datganiad o'r fath wedi'i osod, tybir mai'r Comisiwn Etholiadol oedd yn gyfrifol am y newidiadau. Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau ffynhonnell y newidiadau.

## Ymateb y Llywodraeth

O gofio'r amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, disgwylir ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r ail bwynt a'r trydydd pwynt cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**12 Ionawr 2021**